# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 5

COSBAU

## PENNOD 4

COSBAU SY’N YMWNEUD Â CHADW COFNODION A THREFNIADAU TALU’N ÔL

*Cosb am fethu â chadw cofnodion mewn cysylltiad â ffurflenni neu hawliadau treth a’u storio’n ddiogel*

### 143 Cosb am fethu â chadw cofnodion a’u storio’n ddiogel

(1) Mae person sy’n methu â chydymffurfio ag adran 38 neu 69 yn agored i gosb heb fod yn fwy na £3,000.

(2) Ond nid oes unrhyw gosb i’w thalu os yw ACC yn fodlon bod unrhyw ffeithiau y mae’n rhesymol ofynnol ganddo iddynt gael eu profi, ac y byddai’r cofnodion wedi eu profi, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

### 144 Esgus rhesymol am fethu â chadw cofnodion a’u storio’n ddiogel

(1) Os yw person sy’n methu â chydymffurfio ag adran 38 neu 69 yn bodloni ACC neu (drwy apêl) y tribiwnlys bod esgus rhesymol am y methiant, nid oes unrhyw rwymedigaeth i gosb o dan adran 143 mewn perthynas â’r methiant.

(2) At ddibenion is-adran (1)—

(a) nid yw prinder arian yn esgus rhesymol oni bai y gellir priodoli hynny i ddigwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y person;

(b) pan fo'r person yn dibynnu ar berson arall i wneud unrhyw beth, nid yw hynny'n esgus rhesymol oni bai bod y person cyntaf wedi cymryd gofal rhesymol i osgoi'r methiant;

(c) os oedd gan y person esgus rhesymol am y methiant ond bod yr esgus wedi dod i ben, mae'r person i'w drin fel pe bai wedi parhau i fod â'r esgus os caiff y methiant ei gywiro heb oedi afresymol ar ôl i'r esgus ddod i ben.

**145 Asesu cosbau o dan adran 143**

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 143, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person o'r gosb a aseswyd.

(2) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 143 o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf bod y person wedi methu â chydymffurfio ag adran 38 neu 69.